**Teitl: The Naked Gun (2025)**
**Genre: Comedi**
**Cyfarwyddwr: Akiva Schaffer**

Mae'r ffilm newydd yn gyfres '*The Naked Gun*' yn anelu i adfywio y gyfres yn dilyn dros dair degawd heb unrhyw ddim diweddariad. Yn y ffilm wedi ei chyfarwyddo gan Akiva Schaffer (un o aelodau y grwp comedi Americanaidd *'The Lonely Island*') mae Liam Neeson yn chwarae Frank Drebin Jr., sef mab cymeriad Leslie Nielsen yn y dair gyntaf, yn ymchwilio i farwolaeth Peiriannydd. Mae'r plot ei hun yn syml, yn caniatau y cyfarwyddwr i fynd i bob cyfeiriad or ran yr hiwmor, o jôcs fwy cyfoes, nodiau i'r 2000's a digon o slapstig. Er fod Pamela Anderson yn anhygoel fel chwaer y Peiriannydd (Beth Davenport), Liam Neeson sydd wir yn dwyn y sioe yn sianelu pob confensiwn o'i rest hir o ffilmiau 'action', sydd yn rhyfedd i feddwl fod Seth MacFarlane, cynhyrchydd y ffilm, wedi cyfaddef ei hun ei fod wedi'i ysbrydoli gan y terbygrywdd yn enwau Liam Neeson a Leslie Nielsen wrth gastio. Roedd llawer yn ffyddiog o lwyddiant y ffilm cyn ei rhyddhau yn dilyn derbyniad cadarnhaol rhai o'r posteri hyrwyddo a oedd yn gymysg o'r hiwmor a fysa rywun yn ei weld mewn cracyr nadolig a jôcs fwy modern yn adlewyrchu ar y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn Hollywood. Gallaf gadarnhau fod y tôn hyn yn gyson drwy'r ffilm wrth i'r ffilm daflu jôc allan yn rheoliadd, o rai yn edrych ar bynciau tabŵ fel hiliaeth o fewn yr heddlu i wneud hwyl am ben y confensiwn o arwyr mewn ffilmiau 'action' yn mynnu torri pob ffon ar ol ei defnyddio. Mae diffyg ffilmiau comedi traddodiadol wedi bod ers ddiwedd y 2000's, a'r safon wedi disgyn yn y 2010's cyn codi yn ôl a ffilmiau a roedd yn cymysgu genres megis *Barbie (2023*) ac *The Menu (2022)*, ond mae'n glir fod Akiva Schaffer ar waith yn profi fod marchnad i gomedi.

Mae'n glir fod Liam Neeson a Pamela Anderson wedi deall tôn y ffilm yn berffaith, yn gwneud hwyl ar y cymeriadau maen't fel arfer yn chwarae ac yn troi yr ystradebau ar ei pen. Does dim syndod bod y ddau wedi cyhoeddi newyddion am ei perthynas yn ddiweddar yn dilyn cysylltiad coeliadwy o fewn ffilm sydd yn gweld Liam Neeson yn stopio lladron a pensiliau mewn sgert a sanau pen-glin. Er fod ambell jôc anweddus erbyn ganol y ffilm a'r ddau ac par o gogls pelydr-X, mae perthynas Frank Drebin Jr a Beth Davenport yn blentynaidd ac yn pigo ar *'Rom-Coms'*, yn adlewyrchu y berthynas rhwng Frank Drebin Sr a Jane Spencer yn y ffilmiau gwreiddiol. Ar y cyfan mae'n glir fod parch at y gwreiddiol gan Akiva Schaffer gan fod y ffilm yn cymryd prif elfennau y gwreiddiol ond yn dewis gwneud rywbeth newydd wrth ei ddiweddaru i wneud hwyl o gonfensiynau fwy modern yn ogystal a stad ein byd ar hyn o bryd, yn ystyried ffactorau fel bodolaeth 'bodycams' ar yr heddlu yn America ac rhan O.J Simpson yn y dair gyntaf. Mae'r gwreiddiol ac y ffilm newydd yn actio fel cyfle i Leslie Nielsen a Liam Neeson edrych yn ôl ar ei ffilmograffi hir llawn cymeriadau ystradebol ac dangos ei fod yn cydnabod faint o wirion gall ymddangos ac yn gallu cymryd jôc yn gwneud hi yn glir i'r gynulleidfa ei fod yn rhy anghymwys i ddatrys un achos heb sôn am achub y byd.

Does dim cwestiwn fod y ffilm yn anhygoel, ond credaf ei fod yn un bwysig wrth edrych ar y newid yng nghgwrs Hollywood hefyd. Wrth edrych ar y ffilmiau sydd ar fin cael ei rhyddhau mae'n glir fod patrwm sef ffilmiau sydd yn cysylltu ac IP (intellectual property) sydd yn bodoli yn barod, *Fantastic Four, Superman* a *Happy Gilmore 2* yn enghreifftiau o fis Gorffennaf yn unig. Yn anffodus mae hyn oherwydd fod costau creu ffilmiau wedi codi felly rhaid sicirhau fod cynulleidfa yn bodoli yn barod ar gyfer ffilm. Gall hyn hefyd egluro pam fod y cymysgu o genres yn boblogaidd, er mwyn lledaenu y fraced gynulleidfa i sicirhau elw. Er fod y ffilm yn bodoli ar gefn IP ac yn actio fel *'reboot'* ar gyfer y gyfres ffilmiau mae'n glir ei fod a rheswm clir i fodoli ac a targed newydd i wneud hwyl am ben ond yn cadw ysbryd y gwreiddiol. Mae'r ffilm yn dangos fod cynulleidfa fodern yn fodlon troi fyny i gefnogi comedi ar y sgrin fawr ac fod ffordd barchus i greu '*reboot'*.